| Enw'r Ymgeisydd<br>*Candidate's Name* | Rhif y Ganolfan<br>*Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd<br>*Candidate Number* |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU** **WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd** **General Certificate of Secondary Education**

261/08

# CYMRAEG AIL IAITH (CWRS BYR)
# *WELSH SECOND LANGUAGE (SHORT COURSE)*

## DARLLEN AC YSGRIFENNU/*READING AND WRITING*

## HAEN UWCH/*HIGHER TIER*

P.M. DYDD LLUN, 18 Mehefin 2007
*P.M. MONDAY, 18 June 2007*

1 Awr/*1 Hour*

**Arholwr yn unig**

| Rhif y Cwestiwn | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | | |
| 4 | | |
| CYFANSWM | | |

### DEUNYDDIAU YCHWANEGOL
### *ADDITIONAL MATERIALS*

Nid oes angen deunyddiau ychwanegol ar gyfer yr arholiad hwn.
*No additional materials are required for this examination.*

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR
### *INSTRUCTIONS TO CANDIDATES*

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y bylchau ar ben y dudalen hon.
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*

Atebwch **bob** cwestiwn.
*Answer **all** questions.*

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau a ddarperir yn y papur cwestiynau hwn.
*Write your answers on the lines provided in this question paper.*

### GWYBODAETH I YMGEISWYR
### *INFORMATION FOR CANDIDATES*

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

Nodir y marciau a ddyfernir ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau darllen fel a ganlyn: [✓= 2] ac ati.
*Marks awarded for accuracy of expression within the reading questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.
*No certificate will be awarded to a candidate detected in any unfair practice during the examination.*

**1.** Darllenwch y sgwrs yma rhwng Nia a Robert. Yna gwnewch y tasgau **yn Gymraeg**.
*Read this conversation between Nia and Robert and then complete the tasks* ***in Welsh***.

[12 + ✓= 4] = **[16]**

| | |
|---|---|
| Nia: | Sut wyt ti Robert? Beth wyt ti'n wneud heno? |
| Robert: | Gwaith cartref wrth gwrs. Mae Harri Hanes wedi rhoi llawer iawn o waith cartref i ni – rhaid i ni ddarllen am Hitler ac yna ysgrifennu traethawd amdano fe. |
| Nia: | O diflas iawn. Dw i wedi gwneud fy ngwaith cartref Mathemateg i yn yr ysgol amser cinio. Mae'r gêm bêl droed Man U yn erbyn Chelsea ar y teledu heno hefyd cofia. |
| Robert: | Wel, roeddwn i wedi anghofio popeth am y gêm. Faint o'r gloch? |
| Nia: | Wyth o'r gloch ar deledu lloeren yn anffodus – a does gyda ni ddim *Sky*. |
| Robert: | Rwyt ti'n gallu dod i'n tŷ ni – mae mam a dad yn mynd allan i'r sinema. |
| Nia: | Diolch, syniad gwych – ond beth am dy waith cartref Hanes di? |
| Robert: | Wel bydd rhaid i fi aros gartref yfory i wneud y gwaith ar Hitler. |
| Nia: | Beth wyt ti'n meddwl - chwarae triwant? |
| Robert: | Wel bydda i'n dweud wrth mam a dad bod y ffliw arna i – wedyn ar ôl iddyn nhw fynd i'r gwaith bydda i'n gwneud fy ngwaith cartref Hanes. |
| Nia | Rydyn ni'n mynd allan nos Sadwrn cofia. |
| Robert: | Bydd y ffliw yn well erbyn hynny. Ha, ha. Rydw i'n edrych ymlaen at fynd i gyngerdd pop *Stereophonics* yng Nghaerdydd – maen nhw'n ardderchog. |
| Nia: | Iawn – grêt. Sut ydyn ni'n mynd? |
| Robert: | Wel y newyddion drwg ydy bod mam a dad yn dod hefyd. |
| Nia: | O na, dydw i ddim eisiau mynd gyda nhw! Hoffwn i fynd ar y trên – ti a fi. |
| Robert: | Wel y newyddion da ydy ein bod ni yn aros mewn gwesty pum seren yng Nghaerdydd nos Sadwrn. |
| Nia: | Wel newyddion da wir! – basai'n well gyda fi fynd gyda ti heb dy rieni - a chysgu ar y pafin! |

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(i) Llenwch y grid **yn Gymraeg**.
*Complete the grid* ***in Welsh****.* [12]

| | |
|---|---|
| Gwaith cartref Robert – Beth? | [1] |
| Nia wedi gwneud ei gwaith cartref. Ble? | [1] |
| Nia ddim yn gallu gweld y gêm gartref. Pam? | [1] |
| Robert yn mynd i wneud ei waith cartref. Pryd? | [1] |
| Dweud beth wrth ei rieni? | [1] |
| Nos Sadwrn – mae Robert a Nia yn mynd i gyngerdd. Ble?<br><br>Pwy ydy'r artistiaid? | (i) ..................................................<br>.................................................. [1]<br>(ii) ..................................................<br>.................................................. [1] |
| Newyddion drwg. Beth? | [1] |
| Newyddion da. Beth? | [1] |
| Ydy Nia'n hoffi'r newyddion da?<br><br>Pam? | (i) ..................................................<br>.................................................. [1]<br>(ii) ..................................................<br>.................................................. [2] |

(ii) Ysgrifennwch **ddwy** frawddeg **yn Gymraeg** i ddweud beth ydych chi'n meddwl o'r:

(a) newyddion drwg. Pam?
(b) newyddion da. Pam?

*Write* ***two*** *sentences* ***in Welsh*** *to say what you think of:*

*(a) the bad news. Why?*
*(b) the good news. Why?*

[✓= 4]

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**2.** Ysgrifennwch ymatebion **yn Gymraeg** i ateb cwestiynau weloch chi ar wefan clwb dysgu Cymraeg.
*Write respones **in Welsh** to answer questions you saw on the web site of a Welsh learners club.*
**[16]**

Fiona Hamilton ydw i. Rydw i'n byw yn Llundain ac yn dysgu siarad Cymraeg. Fy hobïau ydy chwarae badminton, cerdded mynyddoedd a mynd ar y we. Beth amdanat ti?
*I'm Fiona Hamilton. I live in London and I'm learning to speak Welsh. My hobbies are playing badminton, mountain walking and surfing the internet. What about you?*

..........

..........

..........

..........

..........

Rydw i'n byw mewn fflat bach yng nghanol Llundain. Does dim gardd gyda ni ond rydw i'n hoffi byw yma achos mae llawer o bethau diddorol i wneud yma. Beth am dy ardal di? Oes llawer o bethau i wneud yna?
*I live in a small flat in the middle of London. We haven't got a garden but I like living here because there are lots of interesting things to do here. What about your area? Are there lots of things to do?*

..........

..........

..........

..........

..........

Rydw i wrth fy modd yn gwylio ffilmiau ac rydw i'n aelod o glwb ffilmiau ac yn cael dwy ffilm ar DVD bob wythnos. Wyt ti'n hoffi ffilmiau a rhaglenni teledu?
*I really enjoy watching films and I'm a member of a film club and I have two films on DVD every week. Do you like films and TV programmes?*

..........

..........

..........

..........

..........

Examiner only
*Arholwr yn unig*

Bob blwyddyn rydw i'n mynd i Sir Benfro ar wyliau ac yn cael cyfle i siarad Cymraeg. I ble est ti ar wyliau y llynedd? Beth wnest ti? Oedd e'n dda?
*Every year I go to Pembrokeshire on holiday and I have an opportunity to speak Welsh. Where did you go on holiday last year? What did you do? Did you enjoy it?*

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................



**Trosodd.**

**3.** Darllenwch y llythyr yma mae Samantha wedi'i ysgrifennu at gylchgrawn pobl ifanc. Yna gwnewch y tasgau sy'n dilyn **yn Gymraeg**.
*Read this letter that Samantha has written to a young people's magazine. Then complete the tasks that follow* ***in Welsh****.* [28 + ✓= 6] = **[34]**

10, Ffordd y Mynydd
Aberlydan
BA23 8NS
13/06/07

Annwyl Olygydd,

Rydw i'n ysgrifennu yn y lle cyntaf i ddiolch i chi am gylchgrawn diddorol. Mae llawer o fy ffrindiau'n prynu'r cylchgrawn *Ifanc* bob wythnos ac rydyn ni'n mwynhau'r dudalen llythyrau a'r tudalennau lliwgar ar ffasiwn yn arbennig.

Yn *Ifanc* yr wythnos ddiwethaf roedd erthygl am bobl ifanc oedd yn chwarae tenis a phêl droed yn broffesiynol. Roedd llawer o'r chwaraewyr yma yn ennill dros bum deg mil yr wythnos ac roedden nhw'n byw mewn tai mawr ac yn gyrru ceir drud fel Ferraris. Rydw i'n meddwl bod hyn yn dwp achos yn y cylchgrawn hefyd roedd erthygl am bobl ifanc digartref oedd yn gwerthu *Big Issue* - roedden nhw'n trio byw ar ddau ddeg punt yr wythnos ac yn cysgu allan ar y stryd. Dydy pethau fel hyn ddim yn deg o gwbl.

Roedd yr erthygl, mis diwethaf, am ystafelloedd siarad ar y we yn ddiddorol iawn hefyd. Rydw i'n cytuno â'r erthygl bod ystafelloedd siarad ar gyfer pobl ifanc yn ddiddorol, ond yn fy marn i maen nhw'n beryglus iawn. Mae llawer o bobl ddrwg a *paedophiles* yn aelodau o'r ystafelloedd siarad yma; maen nhw'n trio dod yn ffrindiau gyda plant a phobl ifanc a dydyn nhw ddim yn dweud y gwir am eu hoed nhw.

Mae'r adran yn y cylchgrawn ar ganu pop bob amser yn ddiddorol ac mae'n hyfryd darllen am lawer o grwpiau newydd sy'n codi o hyd. Mae *Ifanc* yn gwneud gwaith da i helpu'r grwpiau newydd yma trwy drefnu gigs mewn ysgolion uwchradd yn y Gogledd, De a'r Canolbarth.

Mae syniad da gyda fi ar gyfer tudalen newydd yn *Ifanc*. Beth am gael tudalen ar ffilmiau newydd? Mae llawer iawn o bobl ifanc yn hoffi mynd i'r sinema, maen nhw'n mwynhau darllen am y ffilmiau mwyaf diweddar ac yna eu trafod a rhoi eu barn arnyn nhw, ar ôl eu gweld.

Yn gywir,

Samantha.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(i) Atebwch y cwestiynau **yn Gymraeg**.
*Answer the questions **in Welsh**.* [28]

1) Pa dudalennau mae Samantha a'i ffrindiau'n hoffi yn y cylchgrawn ?

(i) .................................................................................................................................... [2]

(ii) .................................................................................................................................... [2]

2) Beth mae Samantha'n ddweud am chwaraewyr ifanc proffesiynol tenis a phêl droed?

(i) .................................................................................................................................... [2]

(ii) .................................................................................................................................... [2]

3) Beth mae hi'n ddweud am y bobl ifanc sy'n gwerthu'r *Big Issue*?

(i) .................................................................................................................................... [2]

(ii) .................................................................................................................................... [2]

4) Mae Samantha yn meddwl bod ystafelloedd siarad ar y we yn beryglus i blant a phobl ifanc. Pam?

(i) .................................................................................................................................... [3]

(ii) .................................................................................................................................... [3]

5) Beth mae'r cylchgrawn yn wneud i helpu grwpiau pop newydd?

.................................................................................................................................... [4]

6) Mae Samantha'n meddwl basai cael tudalen ar ffilmiau'n syniad da. Pam?

(i) .................................................................................................................................... [3]

(ii) .................................................................................................................................... [3]

(ii) Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â syniadau Samantha yn y llythyr ar dudalen 6?
Ysgrifennwch baragraff byr **yn Gymraeg** i ymateb i **ddau** beth sy'n y llythyr.
*Do you agree or disagree with some of Samantha's views in the letter on page 6?*
*Write a short paragraph **in Welsh** giving your response to **two** things in the letter.*
[✓= 6]

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**4.** Ysgrifennwch lythyr **yn Gymraeg** (tua 100 o eiriau) at y cylchgrawn 'Ifanc' yn rhoi eich barn am **un** o'r canlynol. Dwedwch a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, a rhowch resymau ac enghreifftiau i gadarnhau eich safbwynt.
*Write a letter **in Welsh** (about 100 words) to the magazine 'Ifanc' expressing your opinion on **one** of the following. Say whether you agree or disagree with them and give reasons and examples to support your view.* **[34]**

*(a)* 'Mae rhaid i'r ysgol a'r cyngor lleol wneud llawer iawn mwy i helpu'r amgylchedd. Mae llawer gormod o sbwriel a fandaliaeth yn fy ardal i,' meddai Tim West o Abertawe.
*'Schools and local councils must do a lot more to help the environment. There is far too much litter and vandalism in my area,' says Tim West from Swansea.*

*(b)* 'Does dim byd i bobl ifanc wneud yn ein hardal ni,' meddai Siân Hughes o Gaernarfon.
*'There's nothing for young people to do in our area,' says Siân Hughes from Caernarfon.*

*(c)* 'Hoffwn i gael mwy o gymorth ar gyfer pobl ifanc fel fi sy'n dysgu Cymraeg. Hoffwn i gael clwb Cymraeg, papur newydd a mwy o raglenni Cymraeg ar y teledu ar gyfer pobl ifanc,' meddai Frances Holland o'r Drenewydd.
*'I would like to have more support for young people, like myself, who are learning Welsh. I would like a Welsh club, a newspaper and more Welsh programmes on television for young people,' says Frances Holland from Newtown.*

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*